Y bioden gafodd blu gwyn

Dewrder / Ffyddlondeb

Drwy'r dydd bu'r bioden ddu a gwyn yn hedfan o'r naill goeden i'r llall yn chwilio am fwyd. Ond, amser maith yn ôl, du i gyd oedd y bioden fel gweddill y teulu. Perthyn i deulu'r brain duon mae'r bioden. Mae'r stori hon yn dweud sut y cafodd y bioden ei phlu gwyn.

Un gyda'r nos pan oedd y bioden ddu yn hedfan o'r naill goeden i'r llall fe welodd lwynog coch yn mynd ar ei bedwar. Roedd a'i lygaid ar oen bach oedd newydd gael ei eni. Dechreuodd y bioden hedfan ac ysgwyd ei hadenydd o flaen trwyn y llwynog coch. Dychrynodd yntau a rhedodd i ffwrdd. Y noson wedyn digwyddodd yr un peth yn union. Ond erbyn hyn roedd yr oen bach yn gryfach o lawer. Gallai redeg a phrancio o gwmpas y cae. Roedd ei fam yn pori'n braf yng ngwaelod y cae. Ar ôl bod yn prancio drwy'r dydd roedd yr oen bach wedi blino'n lân. Gorweddodd yn dawel a chau'i lygaid.

"Dyma fy nghyfle," meddai'r llwynog coch. Aeth ar ei bedwar a symudodd yn araf tuag at yr oen bach. Roedd y bioden ddu yn clwydo ar y goeden. "Rwy'n benderfynol nad ydi'r hen lwynog coch yna'n mynd i ladd yr oen bach," meddai. Daeth i lawr o'r goeden ac ysgwyd ei hadenydd o flaen trwyn yr hen lwynog. Clywodd y ddafad sŵn yr aderyn yn ysgwyd ei hadenydd. Rhedodd nerth ei thraed a dechreuodd frefu dros bob man. Dychrynodd y llwynog a rhedodd i ffwrdd.

Aeth diwrnod neu ddau heibio. Roedd y ddafad yn gorwedd yn y cae yn cnoi'i chil. Daeth yr oen bach ati i gael diod o lefrith. Dyna lle'r oedd yr oen yn sugno a sugno.

Daeth y bioden ddu heibio. "Tyrd yma," meddai'r ddafad, "rydw i eisiau diolch i ti am fy helpu. Ddwy waith fe wnest ti ddychryn yr hen lwynog coch." Yn sydyn dechreuodd yr oen bach chwythu'r llefrith o'i geg ar blu du y bioden. Roedd dafnau o wyn ar blu'r bioden.

Ond pwy ddaeth yn llechwraidd rownd y gornel ond y llwynog coch. Roedd a'i fryd ar fwyta'r bioden ddu. Ond ble roedd hi? Beth oedd yr aderyn dieithr hwn? Aderyn oedd yn debyg iawn i'r bioden ond roedd yn ddu a gwyn! Felly, rhedodd y llwynog coch i ffwrdd i chwilio am y bioden ddu.
Byth ers hynny mae'r bioden wedi bod yn ddu a gwyn. Ond mae'r rhan fwyaf o'r teulu yn ddu i gyd fel y frân, y gigfran ar jac do.
Am fod y bioden wedi bod yn ddewr mae hi'n ddu a gwyn.

O Dduw, Gwna fi'n ddewr bob amser. Amen.

- Ydych chi'n credu fod y bioden wedi bod yn ddewr?
- Sut aderyn ydi'r bioden heddiw?
- Mae sôn amdani'n ymosod ar nythod adar eraill.